# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 5. Atodiad a. | 8 |
| 5. Atodiad b | 11 |
| 6. Addasu Polisi Trwyddedu'r Cyngor | 14 |
| 6. Atodiad 1 | 15 |
| 6. Atodiad 2 | 17 |
| 7. Diwygio Deddf Trwyddedu 2003 | 18 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00yb DYDD LLUN, 9 MAWRTH 2015**

**10:00am MONDAY, 9 MARCH 2015**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679 878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 27.11.15

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**Plaid Cymru (7)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig Ab Iago Eddie Dogan

Sedd wag / vacant seat Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

**Annibynnol/Independent (4)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**Llais Gwynedd (3)**

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones Dilwyn Lloyd

Peter Read

**Aelod Unigol / Individual Member (1)**

Louise Hughes

**Aelod Ex-officio/Ex-officio Member**

Is-gadeirydd y Cyngor/Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 8fed o Ragfyr 2014 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 08.12.2014
(b) 17.12.2014

(copi yma – papur **glas**)

**6. ADDASU POLISI TRWYDDEDU Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **pinc**)

**7. ADDASIAD I DDEDDF TRWYDDEDU 2003 – GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (TRWYDDEDU ADLONIANT ) 2014**

Derbyn, er gwybodaeth, adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

(copi yma - papur **melyn**)

**8. TELEDU CYLCH CYFYNG**

Derbyn barn y Pwyllgor

**9. HYFFORDDIANT ANFFURFIOL**

Sesiwn yn diweddaru'r Aelodau ar eu cyfrifoldebau wrth wasanaethu ar is-bwyllgorau trwyddedu.

Mae'n hanfodol bod pob aelod o'r pwyllgor yn mynychu'r sesiwn cyn gwasanaethu ar is-bwyllgor i'r dyfodol.

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 08.12.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr, Annwen Hughes, Llywarch Bowen Jones, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Huw Edwards a Louise Hughes. Nodwyd bod y Cynghorydd Huw Edwards yn wael iawn a bod aelodau'r Pwyllgor yn anfon eu dymuniadau gorau ato am wellhad buan.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

**Teledu Cylch Cyfyng (TCC)**

Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yn Abermaw lle bu i'r Heddlu adrodd wrth y Cynghorwyr Eryl Jones Williams ac Annwen Hughes nad oedd TCC yn gweithio neu wedi ei ddiffodd i ffwrdd mewn rhai safleoedd. Adroddodd Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu ei bod wedi trafod y mater gydag Mr Ian Williams o'r Heddlu ac ymddengys bod problemau gydag offer ddim yn gweithio neu fod staff ddim yn ymwybodol o sut i lawr lwytho / casglu gwybodaeth.

Cyfeiriwyd at yr amodau TCC sydd yn cael eu cynnwys ar nifer o geisiadau trwyddedu. Rhaid ystyried yr angen i fonitro a chosbi os nad yw'r amod yn cael ei weithredu. Eglurwyd bod angen i eiriad yr amod fod yn gynhwysfawr er mwyn cosbi.

Atgoffwyd yr aelodau hefyd os yw amod yn cael ei thorri, bod gan y Cynghorwyr neu'r Heddlu hefyd yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r drwydded.

**PENDERFYNWYD cynnwys y mater fel eitem ar y Pwyllgor nesaf (9.3.15) a gwahodd Mr Ian Williams o'r Heddlu i fynychu gan mai yr Heddlu sydd fel arfer yn cyflwyno amodau TCC.**

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 15 Medi 2014, fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar;

i. Cywiro enw'r Cadeirydd - Eryl Jones Williams ac nid Eryl Lloyd Williams yn eitem 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 3.9.2014 a 25.9.2014.

Gofynnwyd cwestiwn i'r Cyfreithiwr os oedd gan aelod yr hawl i gynrychioli ymgeisydd mewn gwrandawiad os oes gan yr aelod hwnnw fudd personol. Os bydd gan yr aelod fudd personol a ddylai fod yn aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu?

Mewn ymateb, nodwyd mai cyfrifoldebau'r pleidiau Gwleidyddol yw penodi unigolyn ar bwyllgor - sedd i'r grŵp sydd yn cael ei gynnig.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:40a.m a daeth i ben am 10:55am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 08.12.14

**Yn bresennol**: Cyng. Tudor Owen, Cyng. Angela Russell, Cyng. Dilwyn Lloyd

**Hefyd yn bresennol:** Geraint B Edwards (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu), Eirlys Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – Mac DONALDS RESTAURANTS, CANOLFAN SIOPA BRITANNIA, FFORDD CAERNARFON, BANGOR, GWYNEDD.**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Phillip Loundes, Mr Anthony Gill (cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd)

**Aelodau Lleol:** Dim yn bresennol

**Eraill a fynychwyd:** Cynghorydd Derek Hainge (Cyngor Dinas Bangor), Cynghorydd Eve Butler (Cyngor Dinas Bangor), Constance Bell (arsylwi - Kings Chambers)

**Ymddiheuriadau:** Dim i'w nodi

**Adroddiad ac argymhelliad yr Adain Trwyddedu.**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais i amrywio trwydded eiddo ar gyfer bwyty McDonalds, Ffordd Caernarfon, Bangor. Cyflwynwyd y cais am estyniad ar yr oriau gweithgareddau trwyddedig safonol o ddarparu lluniaeth hwyr y nos yn unig ar, ac oddi ar yr eiddo. Rhoddwyd manylion am yr oriau fydd yr eiddo ar agor i'r cyhoedd a'r amseroedd darparu lluniaeth hwyr y nos. Nodwyd bod y 'drive thru' yn cau am 24:00 bob nos.

   Tynnwyd sylw'r panel at gamau roedd yr ymgeisydd yn bwriadu eu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan Trwyddedu –

   - Gweithredu system Teledu Cylch Cyfyng
   - Rheolwyr shifftiau yn cael eu hyfforddi mewn materion diogelwch a gwarchod
   - Cydymffurfio a gofynion rheolaethol o safbwynt diogelwch tan, iechyd a diogelwch a diogelwch bwyd.
   - Holl staff i dderbyn hyfforddiant diogelwch cynhwysfawr
   - Polisi dim cario cynhwysyddion agored yn cynnwys alcohol
   - Pwyntiau cyswllt mewn argyfwng ar gyfer y staff
   - Patrôl sbwriel o gwmpas tu allan i'r bwyty

- Mesurau mewn lle i reoli sŵn - drysau yn cau eu hunain, a chwsmeriaid yn cael eu hannog i adael yn dawel.

b) Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru na gan Heddlu Gogledd Cymru. Nodwyd bod yr Heddlu wedi nodi nad oedd tystiolaeth iddynt wrthod y cais a bod yr oriau cau arfaethedig yn llawer cynharach na llefydd bwyta tebyg yng nghanol Dinas Bangor.

c) Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd gwrthwynebiad i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor yn amlygu eu pryderon yn ymwneud a'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Nodwyd bod Cyngor Dinas Bangor o'r farn bod newid yn yr oriau arfaethedig yn mynd i arwain at gynnydd mewn sŵn oddi wrth gwsmeriaid yn hwyr yn y nos fydd yn amharu ar breswylwyr cyfagos. Datganwyd pryder hefyd y byddai'r ymestyniad mewn oriau yn arwain at gynnydd mewn sbwriel ar y stryd. Derbyniwyd llythyr gan breswylwyr lleol yn gwrthwynebu'r cais ar sail niwsans cyhoeddus, a phryderon am ymddygiad gwrth gymdeithasol. Nodir gan y preswylydd eu bod eisoes yn cael eu amharu gan sŵn cerddoriaeth uchel, a sŵn ceir mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig yr eiddo.

Ch) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Atgoffwyd pawb mai 10 munud oedd y cyfnod siarad pawb.

d) Wrth ymhelaethu ar y cais nododd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd bod y cais yn un rhesymol. Yr ymgeisydd, wedi bod yn gyfrifol am y bwyty ers dros 8 mlynedd gyda pherthynas dda gyda'r gymuned ac yn cyflogi dros 100 o bobl leol. Nid oedd sylwadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu na phroblemau sŵn wedi cael eu cyfeirio at Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor. Adroddwyd bod y bwyty yn cymryd rhan yn yr ymgyrch Cadw Cymru'n Daclus gyda dau sesiwn casglu sbwriel manwl dyddiol wedi eu trefnu ynghyd a sesiynau casglu bob awr. Mae'n fwriad hefyd i roi mesurau mewn lle i reoli sŵn. Mewn ymateb i'r sylwadau gan breswylwyr, mynegwyd siom nad oedd y preswylwyr wedi datgan eu cwyn i'r ymgeisydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham bod angen yr oriau arfaethedig i gynnwys dydd Sul, nodwyd bod hwn yn gyfle i gynnig gwasanaeth i gwsmeriaid sydd yn disgwyl yr un gwasanaeth sydd ar gael ymhob McDonalds.

dd) Mewn ymateb i'r cais nododd Cynghorwyr Dinas Bangor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu bod yn mynegi pryder ar ran y preswylwyr cyfagos. Eglurwyd bod yr ardal yn ardal breswyl, ddistaw ac nad oedd angen creu sefyllfa lle bydd cynnydd mewn sŵn a sbwriel. Mae'n anochel y bydd cwsmeriaid yn cyrraedd mewn ceir fydd yn ychwanegu at y sŵn. Nid oedd pryderon gan y cynghorwyr ynglŷn â sut roeddy bwyty yn cael ei redeg.

Amlygwyd nad oedd sylwadau wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelod Lleol

Cydnabuwyd llythyr a dderbyniwyd gan Mr Elwyn a Medwyn Jones, preswylwyr lleol.

e) Wrth grynhoi ei gais nododd y cyfreithiwr bod yr ymgeisydd yn derbyn a deall pryderon y cynghorwyr dinas ond eto nid oedd dim tystiolaeth wedi ei gyflwyno. Amlygwyd bod yr ymgeisydd yn cefnogi llawer o ddigwyddiadau lleol ac yn codi arian ar gyfer cynnal y neuadd gymunedol gerllaw. Gellid rhoi ystyriaeth i drefn o atal ceir rhag mynd drwy'r ‘drive thru’ iddo gau am hanner nos.

f) Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau’r Is Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

ff) Roedd yr Is Bwyllgor o’r farn i ganiatáu’r amrywiad o’r drwydded yn unol a’r cais. Roedd yr Is Bwyllgor o’r farn bod y cais yn gydnaws a’r 4 amcan trwyddedu.

Wedi ystyried sylwadau Cyngor dinas Bangor a llythyr Mr Elwyn a Medwyn Jones, 55 Bryn Llwyd, Bangor yn nodi eu pryderon parthed sŵn a throsedd ac anrhefn honedig, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol wedi dod i law i dystiolaethu bod gwir broblem o sŵn a throsedd ac anrhefn yn bodoli, neu yn debygol o fodoli, wrth ganiatáu’r cais.
Nodwyd yn benodol, na ddaeth tystiolaeth o drosedd ac anrhefn oddi wrth yr Heddlu, nac ychwaith o niwsans sŵn oddi wrth Adran Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD CANIATÁU AMRYWIAD O’R DRWYDDED YN UNOL Â’R CAIS.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol benderfyniad yr Is-bwyllgor ac yn eu hysbysu o’u hawl i apelio i’r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:30pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 17.12.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W. Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Angela Russell ac Ann Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Llywarch Bowen Jones

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. CAIS AM DRWYDDED EIDDO – NEUADD GOFFA BETHEL, BETHEL, CAERNARFON, LL55 1YE**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Cledwyn Pierce Jones a Mr Sion Jones

**Eraill a fynychwyd:** Y Cynghorydd Geraint Elis (Cyngor Cymuned Llanddeiniolen)

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar y cais am drwydded eiddo. 'Roedd y cais mewn perthynas â gweithgareddau trwyddedig dangos ffilmiau, cerddoriaeth fyw, perfformiad dawns a chyflenwi alcohol 7 diwrnod yr wythnos.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen yn nodi oherwydd diffyg tystiolaeth nad oedd y Cyngor Cymuned wedi gallu dod i benderfyniad, ac mai mater i bentref Bethel oedd caniatáu trwydded neu beidio. Derbyniwyd 2 lythyr o wrthwynebiad ar sail amcanion trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a throsedd ac anrhefn.

Adroddwyd bod un o'r llythyrau yn anhysbys. 'Roedd y llythyr wedi ei ysgrifennu ar ran cynrychiolaeth o bobl y pentref ac yn cyfeirio at y ffaith nad oedd yn briodol defnyddio Neuadd Goffa fel adeilad trwyddedig. Eglurwyd nad oedd cyfeiriad yn Neddf Trwyddedu 2003 nac ychwaith yng nghanllawiau Adran 182 o'r Ddeddf at sut y delir efo sylwadau gan sylwebydd dienw. Nodwyd y gellir rhoi ystyriaeth yn unol â'r Ddeddf i sylwadau nad oedd yn wamal neu drallodus os ydynt yn berthnasol i'r 4 amcan trwyddedu.

Nid oedd gan Heddlu Gogledd Cymru na'r Gwasanaeth Tân ac Achub wrthwynebiad i'r cais.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol:-

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Wrth ymhelaethu ar y cais nododd yr ymgeisydd bod cyflwyno ceisiadau am drwyddedau dros dro ar gyfer digwyddiadau yn gostus ac y byddai trwydded barhaol o fantais gan fod costau rhedeg yr eiddo yn uchel.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y byddai goruchwyliwr drysau yn bresennol ar gyfer digwyddiadau mawr er mwyn sicrhau yr amddiffynnir plant rhag niwed. Ychwanegwyd y cydweithir efo'r Heddlu pan fo digwyddiadau mawr ac y byddai hyn yn parhau.

Mewn ymateb i'r cais, nododd Cynghorydd Cymuned Llanddeiniolen bod y Cyngor Cymuned ar ôl derbyn gwybodaeth ychwanegol am y cais yn fodlon efo'r bwriad ond teimlir y dylid ystyried newid lleoliad y bar. Ychwanegodd y byddai ymgynghori efo'r gymuned cyn cyflwyno'r cais wedi bod o fantais.

Mewn ymateb i'r sylw, nododd yr Uwch Gyfreithiwr ei fod yn derbyn y pwynt o ran ymgynghori cyn cyflwyno'r cais ond bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r drefn statudol ac y byddai unrhyw ymgynghori pellach yn digwydd tu allan i'r drefn statudol.

Nododd yr ymgeisydd na fyddai'n bosib symud lleoliad y bar gan nad oedd man addas arall i'w leoli.

Gan gyfeirio at y llythyrau gwrthwynebiad, nododd yr ymgeisydd bod yr unigolion wedi camddeall y bwriad.

Nododd aelod ei siomedigaeth fod un o'r llythyrau gwrthwynebu yn ddienw. Mewn ymateb, nododd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd - Iechyd a Diogelwch a Thrwyddedu mai mater i'r aelodau oedd ystyried os oedd y sylwadau yn ddilys ac yn unol ag amcanion y Ddeddf Drwyddedu.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-Bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr Is-Bwyllgor o'r farn y dylid caniatáu'r drwydded yn unol â'r cais gan fod y cais yn gydnaws a'r 4 amcan trwyddedu.

**PENDERFYNWYD caniatáu'r cais ar sail y sylwadau ysgrifenedig a llafar a dderbyniwyd yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol (fel a wirfoddolwyd gan yr ymgeisydd) gael eu hymgorffori i'r drwydded:**

1. **Goruchwylwyr drysau ar gyfer digwyddiadau mawr;**
2. **Neuadd Goffa yn cydymffurfio â gofynion statudol yn dilyn gwaith adnewyddu sylweddol;**
3. **Dim gweithgareddau trwyddedig tu allan;**
4. **Cydymffurfiad ac amseroedd oriau gweithgareddau trwyddedig;**
5. **Gofyn i fynychwyr ymadael yr eiddo yn dawel;**
6. **Plant o dan ofalaeth rhieni/gwarchodwyr, a ddim yn cael mynediad i ardal y bar;**
7. **Gweithredir polisi her 21.**

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

Adroddodd yr Uwch Gyfreithiwr y byddai'n anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn

bresennol penderfyniad yr Is-Bwyllgor ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.05am

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 MAWRTH 2015** |
| **TEITL:** | **ADDASU POLISI TRWYDDEDU'R CYNGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETH RHEOLEIDDIO** |

## 1. GWYBODAETH CEFNDIR

1.1 Mae'n orfodol i awdurdodau trwyddedu 'gymryd sylw o ' ganllawiau 'r Ysgrifennydd Gwladol a waned o dan adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae'r canllawiau diweddaraf (Hydref 2014) yn argymell y lefel dirprwyo mewn perthynas â rhai cyfrifoldebau trwyddedu o dan y Ddeddf. Gweler y rhain yn atodlen 1.

1.2 Fe fabwysiadwyd adolygiad o'r Polisi Trwyddedu yn Rhagfyr 2010 ac fe ddiweddarwyd pennod 12 o'r Polisi yn amlinellu i ba lefel Pwyllgor a swyddog y dylid dirprwyo cyfrifoldebau trwyddedu perthnasol yn Fawrth 2012. Dangosir y rhain yn Atodiad 2.

1.3 Mae'r trefniadau dirprwyo a amlinellir yn y Canllawiau diweddaraf yn cadarnhau'r drefn dirprwyo ar gyfer tri mater sy'n ychwanegol i'r rhestr a ddangosir yn y Polisi.

## 2. CYNNIG

2.1 Argymhellir fod y trefniadau dirprwyo yn cael eu diwygio er mwyn cyd fynd ag argymhellion a wneir yn y Canllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol .

2.2 Fe fyddai mabwysiadu'r argymhelliad yn golygu fod yr Is-bwyllgor yn penderfynu ar gais i amrywio trwydded eiddo mewn adeilad cymunedol i gynnwys amod trwydded arall os oes sylwadau wedi eu derbyn gan yr Heddlu, neu'n cael ei benderfynu gan Swyddogion lle nad oes sylwadau Heddlu wedi eu derbyn.

2.3 Fe fyddai mabwysiadu'r argymhelliad yn golygu fod Swyddogion yn penderfynu a ddylid ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol eraill ar fân gais amrywio ac yn penderfynu ceisiadau mân amrywio trwydded.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Fod y Pwyllgor yn cymeradwyo addasu pennod 12 o'r Polisi yn unol â Chanllawiau a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**Table: Recommended Delegation of Functions**

| Matters to be dealt with | Sub Committee | Officers |
|---|---|---|
| Application for personal licence | If a police objection | If no objection made |
| Application for personal licence with unspent convictions | All cases | |
| Application for premises licence/club premises certificate | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application for provisional statement | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application to vary premises licence/club premises certificate | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application to vary designated premise supervisor | If a police objection | All other cases |
| Request to be removed as designated premises supervisor | | All cases |
| Application for transfer of premises licence | If a police objection | All other cases |
| Applications for interim authorities | If a police objection | All other cases |
| Application to review premises licence/club premises certificate | All cases | |
| Decision on whether a complaint is irrelevant frivolous vexatious etc | | All cases |
| Decision to object when local authority is a consultee and not the relevant authority considering the application | All cases | |
| Determination of an objection to a temporary event notice | All cases | |

| | | |
|---|---|---|
| Determination of application to vary premises licence at community premises to include alternative licence condition | If a police objection | All other cases |
| Decision whether to consult other responsible authorities on minor variation application | | All cases |
| Determination of minor variation application | | All cases |

**12. Delegation of Functions**

| Matters to be dealt with | Sub Committee | Officers |
|---|---|---|
| Application for personal licence | If a police objection | If no objection made |
| Application for personal licence with unspent convictions | All cases | |
| Application for premises licence/club premises certificate | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application for provisional statement | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application to vary premises licence/club premises certificate | If a relevant representation made | If no relevant representation made |
| Application to vary designated premises supervisor | If a police objection | All other cases |
| Request to be removed as designated premises supervisor | | All cases |
| Application for transfer of premises licence | If a police objection | All other cases |
| Applications for interim authorities | If a police objection | All other cases |
| Application to review premises licence/club premises certificate | All cases | |
| Decision on whether a complaint is irrelevant frivolous vexatious etc | | All cases |
| Decision to object when local authority is a consultee and not the relevant authority considering the application | All cases | |
| Determination of an objection to a temporary event notice | All cases | |

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **9 MAWRTH 2015** |
| **TEITL:** | **DIWYGIO DEDDF TRWYDDEDU 2003: GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (TRWYDDEDU ADLONIANT) 2014** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL

1.1 Mae Atodiad 1 Deddf Trwyddedu 2003 yn nodi pa weithgareddau a ystyrir fel darpariaeth adloniant wedi'i reoleiddio a phryd maent yn drwyddedig a'r gweithgareddau hynny nad ydynt yn rhai trwyddedig ac felly wedi'u heithrio o'r system adloniant wedi'i reoleiddio.

1.2 Y mathau gwahanol o adloniant wedi'i reoleiddio yn ôl Deddf 2003 yw:

- perfformio drama;
- arddangos ffilm;
- digwyddiadau chwaraeon dan do;
- adloniant bocsio neu reslo;
- perfformio cerddoriaeth fyw;
- chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio'
- perfformiadau dawns; ac
- adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformio cerddoriaeth fyw, chwarae unrhyw gerddoriaeth wedi'i recordio neu berfformiadau dawns.

1.3 Bydd y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol (Trwyddedu Adloniant) yn diwygio Atodiad 1 ac adran 177A Deddf Trwyddedu 2003 fel nad oes angen i adloniant wedi'i reoleiddio gael ei awdurdodi dan y Ddeddf, mewn rhai amgylchiadau.

2.0 Y GORCHYMYN DIWYGIO DEDDFWRIAETHOL (TRWYDDEDU ADLONIANT) 2014

2.1 Bydd y Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol yn dod i rym ar 6 Ebrill 2015. Bydd yn dadreoleiddio mathau penodol o adloniant wedi'i reoleiddio mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir.

2.2 Ni fydd angen caniatâd trwydded ar gyfer y gweithgareddau a ganlyn:

- Perfformiadau Dawns a Drama i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl rhwng 8am ac 11pm.
- Arddangosfa ffilm 'nid er elw' mewn eiddo cymunedol i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl rhwng 8am ac 11pm ar yr amod bod caniatâd wedi'i roi i ddefnyddio'r eiddo a bod y sgrinio yn cydymffurfio â'r rheolau dosbarthiad oed.
- Digwyddiadau chwaraeon dan do, adloniant Bocsio a Reslo ar gyfer cynulleidfa o hyd at 1000 o bobl rhwng 8am ac 11pm.
- Perfformiadau cerddoriaeth fyw heb amp rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, mewn unrhyw eiddo.
- Perfformiadau cerddoriaeth fyw gydag amp i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl, rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod mewn lle gwaith, ar unrhyw eiddo sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo hynny, mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu unrhyw eiddo cymunedol tebyg, nad ydynt

wedi'u trwyddedu drwy drwydded eiddo i werthu alcohol, ar yr amod bod y trefnydd wedi cael caniatâd ar gyfer y perfformiad gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am yr eiddo.

- Perfformiadau cerddoriaeth fyw gydag amp ar gyfer cynulleidfa o hyd at 500 o bobl, rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, ar eiddo dibreswyl (i) awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar yr eiddo perthnasol.
- Chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl, rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, ar eiddo sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol i'w yfed ar yr eiddo hynny, mewn neuadd eglwys, neuadd bentref, neuadd gymunedol, neu unrhyw eiddo cymunedol tebyg, nad ydynt wedi'u trwyddedu drwy drwydded eiddo i werthu alcohol, ar yr amod bod y trefnydd wedi cael caniatâd ar gyfer y perfformiad gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am yr eiddo.
- Perfformiadau cerddoriaeth wedi'i recordio gydag amp i gynulleidfa o hyd at 500 o bobl, rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, ar safleoedd dibreswyl (i) awdurdod lleol, neu (ii) ysgol, neu (iii) ysbyty, ar yr amod bod y trefnydd yn cael caniatâd ar gyfer y perfformiad ar yr eiddo perthnasol.
- Gweithgareddau wedi'u heithrio: Nid oes angen trwydded rhwng 8am ac 11pm ar unrhyw ddiwrnod, heb unrhyw gyfyngiad ar nifer y gynulleidfa i'r rhain:
  - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar eiddo'r awdurdod lleol os yw'n adloniant sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran yr awdurdod lleol;
  - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar eiddo ysbyty'r darparwyr gofal iechyd pos yw'n adloniant sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran y darparwyr gofal iechyd;
  - Unrhyw adloniant sy'n digwydd ar eiddo ysgol os yw'n adloniant sy'n cael ei ddarparu gan neu ar ran perchnogion yr ysgol; ac
  - Unrhyw adloniant (ac eithrio ffilmiau ac adloniant bocsio neu reslo) sy'n digwydd mewn syrcas teithiol, ar yr amod ei fod (a) yn digwydd mewn strwythur symudol gyda lle i gynulleidfa, a (b) bod y syrcas teithiol heb ei leoli yn yr un safle am yn hwy na 28 diwrnod yn olynol.

## 3.0 AMODAU TRWYDDEDU

3.1 Bydd amodau trwyddedu sy'n ymwneud yn benodol â gweithgareddau nad ydynt bellach yn rhai trwyddedig yn cael eu hatal rhwng yr oriau 8am ac 11pm.

3.2 Gall deilydd trwydded sydd am ddileu amodau sy'n ymwneud â gweithgareddau nad ydynt bellach yn rhai trwyddedig wneud cais i'r awdurdod trwyddedu i amrywio trwydded. Wrth ystyried ceisiadau o'r fath, dylai'r awdurdodau trwyddedu ddileu amodau o'r fath oni bai bod pryderon perthnasol a difrifol am effeithiau cynnal gweithgareddau adloniant sydd wedi'u dadreoleiddio ynghyd â'r gweithgareddau trwyddedig sy'n digwydd ar yr eiddo.

3.3 Wrth adolygu trwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb, mae rhan 177A(3) Deddf 2003 yn caniatáu i awdurdod trwyddedu godi'r ataliad ac ailweithredu amod presennol sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw ac wedi'i recordio. Yn yr un modd, dan ran 177A(4), gall awdurdod trwyddedu ychwanegu amod sy'n ymwneud â cherddoriaeth fyw neu wedi'i recordio fel petasai'r gerddoriaeth yn adloniant wedi'i reoleiddio, ac fel petasai'r drwydded eiddo neu dystysgrif eiddo clwb yn trwyddedu'r gerddoriaeth.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor yn nodi'r newidiadau sydd ar y gweill i Ddeddf Trwyddedu 2003.